**Banc Bwyd Caerdydd | Cardiff Foodbank**
Uned/Unit G, Cardiff Bay Business Centre,
Titan Road
Caerdydd/Cardiff
CF24 5BS

**T:** 029 2048 4120
**E:** info@cardiff.foodbank.org.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg

# Disgrifiad Swydd Cydlynydd Logisteg

| | |
|---|---|
| Teitl Swydd: | Cydlynydd Logisteg |
| Adrodd i: | Rheolwr Gweithrediadau |
| Location: | Swyddfa/Warws Banc Bwyd Caerdydd<br><br>Gweithio hyblyg i gwmpasu ymweliadau achlysurol â Chanolfannau Dosbarthu, ymgyrchoedd bwyd a mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau allanol yn y DU; a gwaith achlysurol gyda'r nos ac ar benwythnosau |
| Amodau'r contract: | Llawn amser: 35 awr, dechrau am 7.45am, dydd Llun i ddydd Gwener.<br><br>Cyfnod rhybudd: chwe wythnos |
| Cyflog: | £27,950 |

## Trosolwg o Fanc Bwyd Caerdydd

Agorodd banc bwyd Caerdydd yn 2009 ac mae'n rhan o rwydwaith Trussell – rhwydwaith cenedlaethol o fanciau bwyd sydd gyda'i gilydd yn darparu bwyd brys a chefnogaeth i bobl sydd yn sownd mewn tlodi ac yn ymgyrchu dros newid i roi terfyn ar yr angen am fanciau bwyd yn y DU. Ein gweledigaeth yw nad oes neb yng Nghaerdydd yn mynd yn llwglyd.

## Diben y Swydd: Cydlynydd Logisteg

Mae'r Cydlynydd Logisteg yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi a chydlynu rhediad llyfn pob maes o weithgareddau gweithredol Banc Bwyd Caerdydd i sicrhau bod lefelau stoc da yn cael eu cynnal, gofod warws ac offer yn cael eu cynnal a bwyd yn cael ei ddosbarthu i'n canolfannau dosbarthu i gleientiaid.

Gan adrodd i'r Rheolwr Gweithrediadau, bydd y Cydlynydd Logisteg yn gweithio'n agos gyda nhw, yn ogystal â'r Cydlynydd Gwirfoddolwyr, Arweinwyr Tîm gwirfoddol a gyrwyr gwirfoddol.

## Cyfrifoldebau Allweddol:

### Warws

- Mewn cydweithrediad â'r Cydlynydd Gwirfoddolwyr, sicrhau bod yr holl wirfoddolwyr warws a gyrwyr gwirfoddol yn cael sesiynau cynefino, yn cael eu hyfforddi ac yn deall gweithdrefnau a phrosesau Banc Bwyd Caerdydd.
- Goruchwylio'r timau i sicrhau bod pawb yn glynu at brosesau warws a chynnal sesiynau briffio tîm gwirfoddol rheolaidd i'w diweddaru am unrhyw newidiadau.

- Sicrhau bod rhoddion bwyd yn cael eu casglu, eu pwyso, eu didoli a'u storio'n briodol a bod cofnodion o roddion yn cael eu cofnodi'n gywir yn barod i'w cofnodi ar System Casglu Data Trussell (DCS).
- Monitro lefelau stoc i nodi a rhagfynegi lefelau stoc isel neu stoc dros ben, prynu stoc ychwanegol pan fo angen a chynhyrchu adroddiadau lefel stoc ar gyfer y Rheolwr Gweithrediadau.
- Goruchwylio iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth reoleiddiol berthnasol arall yn y warws a'r faniau ac adrodd am yr holl bryderon a digwyddiadau i'r Rheolwr Gweithrediadau.
- Monitro gofod ac offer warws a gwneud trefniadau ar gyfer unrhyw wasanaeth neu atgyweiriadau sydd eu hangen.
- Croesawu a diolch i roddwyr a gyrwyr dosbarthu sy'n dod i'r warws.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Gweithrediadau i ddosbarthu eitemau dros ben i sefydliadau lleol a banciau bwyd eraill.

**Cefnogaeth dosbarthu**

- Cynllunio’r rotas dyddiol ar gyfer gwirfoddolwyr warws a gyrwyr gwirfoddol, gan sicrhau bod tasgau allweddol yn cael eu dyrannu a'u cwmpasu, gan gynnwys yr amserlen casglu a dosbarthu.
- Pan fo angen, gweithredu cerbydau'r banc bwyd yn ddiogel i gasglu a dosbarthu eitemau bwyd.
- Cadw cofnodion o fanylion mynediad ar gyfer ein lleoliadau dosbarthu a chasglu rheolaidd a newydd.
- Goruchwylio'r broses archebu bwyd a'r system ddosbarthu i'n canolfannau dosbarthu gan sicrhau cyflenwi stoc yn amserol i bob canolfan. Cysylltu ag arweinwyr tîm gwirfoddol y ganolfan ddosbarthu ynghylch unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â stoc.
- Gweithio ar y cyd â gyrwyr gwirfoddol i lwytho/dadlwytho eitemau bwyd i'w cludo.
- Goruchwylio gwiriadau rheolaidd o gerbydau'r banc bwyd, diweddaru cofnodion ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Rheolwr Gweithrediadau.
- Sicrhau bod cerbydau banc bwyd yn cael eu glanhau a bod ganddynt ddigon o danwydd a gwefr.
- Cydlynu gyda'r Rheolwr Gweithrediadau i amserlennu a threfnu gwasanaethu ac atgyweiriadau cerbydau.

**Cydweithio gyda’r tîm**

- Gweithio ar y cyd ar gynllunio a gweithredu ymgyrchoedd bwyd ad hoc ac ymgyrchoedd bwyd blynyddol archfarchnadoedd, gan gynnwys trefnu rotas ar gyfer casgliadau.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Gweithrediadau a gwirfoddolwyr i gynnal stoc yn ôl yr angen.
- Goruchwylio grwpiau corfforaethol yn ystod eu diwrnodau gwirfoddoli (tymhorol - fel arfer Tachwedd i Ionawr).
- Cefnogi sesiynau canolfannau dosbarthu os oes angen, os ydyn nhw’n brin o wirfoddolwyr.

**Cyffredinol**

- Cadw at bolisïau, codau ymddygiad ac arferion sefydliadol.
- Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys staff a gwirfoddolwyr, gan ddangos ein gwerthoedd craidd sef caredigrwydd, tegwch, diolchgarwch, a pharch bob amser.

- Cefnogi a hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y gweithle.
- Mynychu cyfarfodydd tîm rheolaidd, sesiynau goruchwylio ac adolygiadau perfformiad.
- Ymgymryd â gweithgareddau dysgu a datblygu fel y bo'n briodol ac fel y cytunwyd arnynt â rheolwr llinell y swydd.
- Hyblygrwydd i gyflawni dyletswyddau cysylltiedig eraill a allai godi, datblygu neu gael eu neilltuo yn unol â chylch gwaith eang y swydd.

**Cymwysterau, sgiliau a phrofiad hanfodol**

- 30 oed a hŷn (oherwydd ein hyswiriant) gyda thrwydded yrru ddilys yn y DU a chofnod gyrru glân
- Yn gorfforol ffit ac yn gallu codi a chario offer warws
- Sgiliau trefnu a rheoli amser cryf
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ac ymddygiad cyfeillgar
- Sgiliau TG cryf
- Y gallu i weithio'n effeithiol o fewn tîm gan gynnwys gweithio gyda gwirfoddolwyr
- Yn angerddol am waith Banc Bwyd Caerdydd

**Manyleb y Person:**
**Cymwysterau, sgiliau a phrofiad dymunol**

- Hyderus ac yn gallu gyrru fan bocs hyd at 3,500kg gyda lifft cynffon
- Cynhyrchu a rheoli rotas
- Rheoli gwirfoddolwyr
- Siaradwr Cymraeg neu ddysgwr

| Version control | |
|---|---|
| JD last reviewed and updated | December 2025 |
| Salary last reviewed and benchmarked | |